# Glas

Bwletin misol
Llén natur
Rhif 181
Mawrth 2023

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd
Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **llennatur@yahoo.co.uk**

RHIF ELUSEN Cymdeithas Edward Llwyd 1126027

# Siop Eric Jones


**Fel llyfrwerthwr llyfrau Cymraeg mae pobl Caernarfon a'r fro (o oedran arbennig) yn cofio Eric Jones. Ond mae ei ddyddiaduron a'r atgofion unigol ohono yn llai adnabyddus ac yn dangos y dyn yn gyflawn yn ei filltir sgwar yn ei eiriau ei hun. Pwy sy'n cofio ei siop lyfrau yng Nghaernarfon - y siop tywyll braidd yn ddi-groeso ar yr ymweliad cyntaf, cyn torri'r garw. Bu Eric yn cadw ei ddyddiadur yn selog am flynyddoedd (1947-61).**

6/4/1961- Pontllyfni- Caernarfon- Dyddiadur Eric Jones (Siop Lyfrau Cymraeg Caernarfon) Wenllys, Pontllyfni ■ Glaw hyd ganol y bore, cymylog & pheth haul wedyn, cawod tua 7pm... Hau cennin, rhes arall o foron cynnar, 1 o wylaeth & chodi gweddill yr hen gennin.

**Pa 'frîd' oedd ei foron cynnar tybed.** Pwy sy'n dweud gwylaeth am letys erbyn hyn? A pha hen gennin sydd heb hedeg ac sy'n werth eu cynaeafu ym mis Ebrill. .. *"Musselburgh"* efallai? **Golygydd**

## Y Siop

Dwi'n cofio shop Eric Jones ond ar ôl i mi symud o'r ardal. Shop JR Morris ar gongl dwi'n ei gofio orau. Byw ym Methel a chofio cael pas i'r dre yn ei gar newydd a byth wedi anghofio'r arogl newydd. **Margaret Roberts**




Yn siop Eric y dechreuais i gasglu llyfrau gwyddoniaeth a byd natur yn y 1960au. Trysorfa. **Twm Elias**

J.R. Morris fy mhlentyndod ac Eric Jones fy arddegau. Y siop yn gorffwys rhwng *"Dick's"* a *"Castle Dry Cleaners"* ac uwch ben Twnel Rheilffordd Caernarfon, cyn i'r cythraul Beeching ddwyn ein trên. **Harri Williams**

Beeching y Tory oedd y lleidr ond Llafur wnaeth y gwaith paratoi i'r lladrad. **Alan Thomas**

Dwi'n cofio'r cownter yn arddangos llyfrau, 'Cymru'r Plant' a 'Hwyl'. Roedd y cownter yn erbyn pared gyda *'hatch'* ynddo, lle ymddangosai Eric Jones o'r cefn i sgwrsio a 'servio'. **Brenda Jones**

Dwi'n cofio ei wyneb annwyl tu ôl i'r hatch. Atgofion braf o fynd i siop Eric pan yn blentyn ac arddegyn. Dyn hawddgar ac annwyl iawn. Un tro roeddwn wedi gweld y llyfr Lle Bu Lleu yn ei siop ond doedd gen i ddim digon o bres i'w brynu. Dywedodd wrthaf am fynd â'r llyfr hefo fi a dwad â'r pres pan oeddwn yn dre nesa, rai wythnosau wedyn gan fy mod yn byw yn Nebo. Dyn caredig iawn. **Anita Myfanwy**

Mi oedd cyfneither i mi yn gweithio yna am flynyddoedd. **(roedd o'n cyflogi staff felly? - synnu braidd...)** **Freda Evans**

Yn cofio y pecynnau o barseli wedi eu lapio efo papur brown ac wedi eu cylymu gyda llinyn ar y silff uchaf a gwe pry cop a llwch yn creu awyrgylch hynafol. **Wendy Jones**

Stori gesh i gan Phyllis Ellis o EJ ym mlwyddyn yr Arwisgiad yn cael cynnig (ynghyd â phob ceidwad siop arall ar stryd y Bont Bridd) paent am ddim gan Gyngor Tref Caernarfon i sbriwsio fymryn ar siopau ffordd yr Orymdaith Fawr. Yn y sgrialfa i gymryd mantais o'r fargen, llwyr wrthododd Eric Jones y gymwynas, ag fe arhosodd yr hen siop yn union fel ag yr oedd drwy'r jamborî i gyd! **Duncan Brown**

Cofio mynd i'r siop pan yn blentyn..... lle tywyll a llyfrau ymhobman dipyn yn flêr ond roedd Eric yn medru rhoi ei law ar rhywbeth os oedd angen. **Eric Wenllys**

## Pontllyfni a'i filltir sgwar

Tua 1973 oeddan ni yn mynd yna achos oeddan ni tua 13 oed.... cofio gwatchad fo yn nofio ar lan mor Pontllyfni a wedyn gweld ei Ben ôl pan wnaeth y twal ddisgyn. **Lynne Tetlow**

**A dyna'r cof ohono sydd wedi dod atom gennych i lawr y blynyddoedd! Gwych (ond yntau yn troi yn ei fedd efallai...!)**

Mae'n debyg mai cyn te fyddai'n mynd i "'drochi" fel arfer.

**Beth oedd ei hoff raglenni 'teledydd' (gewch chi'ch synnu efallai!)**

## Y Capel

Roedd yn gymeriad unigryw. Cof plentyn ohono yn Flaenor yng Nghapel Brynaerau. **Eifiona a Gary Glo**

Clywais ei fod yn capelwr selog ond yn mynychu'r cwrdd bore Sul heb gymryd yr un tamaid i frecwast, gyda'r canlyniad iddo ddioddef ben-ysgafnder nes bu iddo fod angen cael ei hebrwng adref yn fuan. Bu cryn mwmian dan y gwynt pan ddigwyddodd hynny unwaith yn rhy aml (meddai'r stori)! **Duncan Brown**

Yn digwydd yn amal iawn , perig fod cyflwr iechyd arall arno nad oeddym yn ymwybodol ohono !! Fwy nag unwaith bu raid galw'r meddyg ar ddyledswydd o Benygroes ato. Roedd ei dy terras wedi ei amgylchu a choed. Meddwl yn ol,siwr ei fod yn greadur *ecxentric*, ond plant ysgol gynradd oeddani **Eifion a Gary**

## Glo

Roedd yn eistedd yn y sedd o fy mlaen yng Nghapel Tan y Coed. **Gwen Griffith**

Pan oeddwn yn gweithio yng Nghaernarfon dros wyliau'r Haf dwi'n ei gofio'n dwad i fyny ar y bws (Moto Coch) ym Mhontllyfni. Bu mam ffrind i ni o'r Fron yn gweithio yn y siop am flynyddoedd. **Awen Hamilton**

Cofio mynd yno hefo mam ar bws glas Nedw pan oeddwn tua 8-9 oed i brynu 2 lyfr 'Help Llaw', ac maent dal gennyf (yn rhywle!!) Diddorol iawn oeddent hefyd, dal i edrych arnynt o dro i dro. Dyddiau difyr! **Pat Hughes**

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Cysylltwch gyda ni: llennatur@yahoo.co.uk

# ADAR NIA EVANS

CYMUNED Llên natur



Barcud Coch, Gaerwen, Sir Fôn ▪ 24 Chwefror




Elyrch Dof - Cors Ddyga, Pentre Berw ▪ 22 Chwefror



Cors Ddyga, Pentre Berw, Sir Fôn. Am dro diwedd 'pnawn a gweld Hebog Tramor ▪ 14 Hydref




Pnawn arbennig heddiw yn Aber Ogwen Ymwelydd newydd, yno ers ddoe: Gwalch y Pysgod ▪ 10 Medi



Drudwy yma di cael lot o sylw ar fy nhudalen FB, a rhai yn rhyfeddu ar y lliwiau! Llun o'r ardd heddiw, Llanfairpwll ▪ 8 Chwefror



Dilyn aelodau Cymuned Llên ac amdro i dop y Gogarth i weld yr Hutan y Mynydd!! ▪ 11 Medi



Malltraeth ▪ Gilfinir ▪ 3 Hydref



Wedi cael modd i fyw 'pnawn 'ma yn Aberogwen!! Glas y Dorlan i'w weld am oriau... ▪ 3 Mehefin

# Dŵr llesol ger Y Gymwynas



**Enghraifft drawiadol o fwynau yn diferu o'r ddaear ar lan Afon Glaslyn yn Y Gymwynas (nid y *Pass of Aberglaslyn!)*** **Iwan Williams**

**Mi fasai'n bosib bod y wythïen 'haearnaidd' yn cario ymlaen yr ochr arall a bod yr afon wedi torri drwyddo rhyw oes o'r blaen.** **Golygydd**




Bydd rhaid i mi fynd i chwilio am y Lefel Goch rwan (ar ochr arall Afon Glaslyn i'r llun a dynais i, ond yn agos iawn). **Iwan Williams**

Mae'r 'lefel' reit wrth ymyl y lôn, tu ôl i wal ond mewn lle annifyr i sefyll pan mae na draffig ar y lôn. Yn rhyfedd iawn, mewn cyfnod o dywydd poeth estynedig yn unig mae'r lefel yn 'chwythu' ac yn achosi i ddŵr lliw oren gael ei dollti ar draws y lon ac yn erbyn y wal gyferbyn. Mi oedd yna ddrws bach ar y 'ffynnon' - mae'n dal posib gweld y ffram. **Megan Cynan Corcoran**

Dau reswm posib i hyn ddigwydd. Yr un mae pobl yn dueddol o fod yn gyfarwydd efo yw asidedd, wedyn pan fo'r haearn yn cyffwrdd rwbath sydd yn llai asidig, yna 'da ni yn gweld yr olion coch yma. Ond hefyd mae modd gweld yr un effaith os oes llai o ocsygen. Pan fo hwnnw wedyn yn cyffwrdd aer, mae'r olion coch yn ymddangos. I gyd i wneud efo argaeledd $O_2$ yn y dŵr sy'n cario'r haearn. **Paula Roberts**

Mae na ffynnon fach, ddim yn bell o'r bont ar ochor y ffordd i Feddgelert. Hen ffrind yn stopio yno a llenwi potel, oedd o'n deud fod dŵr y ffynnon yn beth da i yfed. Ddim yn siwr be oedd yn y dŵr. Mae o yn 95 rwan. **Geraint Thomas**

Difyr iawn. Mae hyn yn edrych yn debyg i effaith bacteria cemotroffig. Maent yn ocsideiddio'r haearn yn y dŵr fel rhan o'u metabolaeth. Maent y ffurfio haearn ocsid lliw coch yn y broses. Arwydd fod lefelau uchel o haearn ac ocsigen yn y dŵr. **John Owen**

John Owen ■ Ydan ni'n son am un 'ta dwy ffenomenon yn fan hyn? Onid yw rheiny fel arfer mewn dŵr mwy llonydd? Onid yw hyn wedi llifo o wythïen tanddaearol ("Level Goch")? Mi fydd rhaid holi daearegwr... Enghraifft o hyn ym Mharc Dydli, Waunfawr. **Golygydd**


Ger Llanfarian, Aberystwyth mae dŵr coch yn codi o'r graig ger yr afon. Ffynnon *'chalybeate'* lesol. Yr enw ar y safle ydy Rhyd y gwin. **Twm Elias**

Mae'r Afon Cegin yn goch i'w weld weithiau hefyd (- ac yn seimllyd! ). Mae ei darddiad yn Ffynnon Cegin Arthur, sydd hefyd yn ffynnon *'chalybeate'*, a oedd yn cael ei ddathlu am ei rinweddau llesol erstalwm. (Erbyn hyn mae hi wedi cael ei llwyr anghofio a gorchuddio gan llysdyfiant a choed onnen meirw.. ond hoffwn ei adfer. **Angharad Owen**




Haearn yn nifer o ffynhonnau yr ardal. Amryw *chalybeate* yna. **Edward Keith**

**Mae amryw o dai yn fy ardal i Llanddeiniolen gyda coch yn ei enw. Rhiwgoch ydi enw fy nhŷ i ac oes mae ffôs yn yr ardd yn rhedeg yn goch. Mae'r dŵr yn alcali. Ph8. Daearegwr wedi ceisio egluro bod hyn yn gallu digwydd mewn ardaloedd llechi a chlai?** **E K**


GOLYGFA O BEN CRAIG Y LLAN, GERLLAW BEDDGELERT.*

YR OLYGFA TUA'R DEHAU.

Pa le ar wyneb daear y ceir, mewn unrhyw fan,
Y fath arsyllfa hyfryd a chopa Craig y Llan?
Ar wefus y Gymwynas, lle tŷf yr hirwellt mawr,
Gan ddisgyn dros ei dannedd—ei dannedd erch i lawr.

## O Lili wen fach



*O Lili wen fach, o ble daethost di,*
*A'r gwynt mor arw ac mor oer ei gri?*
*Sut y mentraist di allan drwy'r eira i gyd?*
*Nid oes flodyn bach arall i'w weld yn y byd!*


Diolch i Ann James am rannu hwn

## Goleuni'r gogledd a smotiau haul…

### … oes 'na gysylltiad? Dyma gofnodion o ddyddiaduron William Bulkeley 1734 i 1750

Mae gofodwyr wedi bod yn cofnodi smotiau haul am dros bedair canrif. Ceir adroddiadau a chofnodion yn llenyddiaeth yr Asyriaid a'r Babiloniaid at smotiau haul ond dim ond yn ystod yr 17 ganrif gyda dyfeisio'r telisgop daeth astudiaethau gwyddonol i fri. Hyd yn oed gyda'r defnydd o delisgop roedd cyfri a chofnodi smotiau haul yn dasg anodd ac hyd yn oed heddiw mae'r cofnodi yn gallu bod yn anghyson. Mae 'na ddigon o gofnodion o 1600 ymlaen i greu data sy'n weddol safonol. Y dybiaeth ymysg nifer o wyddonwyr yw bod cylch sefydlog i'r smotiau haul a'u bod yn gallu effeithio ar dywydd ein daear ni ond hyd yma nid oes gysylltiad sicr. Rhaid cofio bod maint y smotiau yn gallu amrywio ac nid yw'n ddigon i gyfri'r nifer yn unig.

Mae'r graff isod yn dangos nifer o gofnodion smotiau haul a ddaeth Hoyt a Schatten ar eu traws mewn llenyddiaeth wyddonol tra bo'r llinell goch yn dangos yr holl gofnodion byd eang mewn llenyddiaeth gyffredinol. Yr hyn sydd yn amlwg yw fod cylch pendant i'r smotiau haul. Ceir cylchoedd yn cyrraedd eu penllanw ar gyfartaledd pob 11 blwyddyn ond nid yw'r cylchoedd amserol yn gyson. Gellir gweld bod cyfnod ar ddiwedd yr 17eg ganrif h.y. 1650 i 1700 pan oedd nifer y smotiau a gofnodwyd yn isel.




Roedd y cyfnod yma yn cyd fynd â chyfres o flynyddoedd oer iawn yn Ewrop, yr Ynys Las a Gogledd America.

### Ond beth â wnelo hyn i gyd â William Bulkeley?

Deuthum ar draws 14 o gofnodion at oleuni'r gogledd yn nyddiaduron William Bulkeley rhwng 1734 a 1750. Mae'r cofnodion yma yn cyd fynd â'r cyfnod pryd oedd nifer uchel o gofnodion o smotiau haul

**(Gweler Graff 1).**

Ceir y cofnod cyntaf ym mis Rhagfyr 1734 ■ *"18thThe Wind came to S.W. about 3 in the Morning, & rained excessive hard for the most part till Morning day when ye Wind came to W. flashing lights in ye North appeared frightfull enough all night, shooting from E. to W"*

Mae'r cofnod o fis Hydref 1735 yn rhoi rhywfaint mwy o wybodaeth i ni.Fe noda ■ *"as they have been indeed very common this Twenty years last past, tho unknown in Great Britain before that time"*

(3 rd) /4t.October 1735 ■ *"The Wind S.E. Calm & temperate, ……… this Evening. very great lights in the Sky this & last Night, as they have been indeed very comon this Twenty years last past, tho unknown in Great Brittain before that time, they generally foreshow a great deal of rain & Stormy weather".*

O edrych ar graff 1 gellir gweld bod y cofnodion o smotiau haul rhwng 1700 a 1720 wedi bod yn isel.


### A oedd 'na gysylltiad felly rhwng ymddangosiad smotiau haul a goleuni'r gogledd ?

Ceir ambell i gofnod dramatig o'r ffenomena fel mae'r tri chofnod yma yn dangos:

21st.(Medi 1741) ■ *"The Wind S.W. cloudy & dark in the Morning, but calm and warm, cleared up about 10, and all the rest of the day Sun shiny and fair……….This night the whole Hemisphere was covered with what's called an Aurora Borealis, darting about & interweaving Pillars of light of severall colours thro the clouds from 8 till 10 when I went to bed, which made it lighter that any Moon Shiny night."*

15 th (Mawrth 1742) ■ *"The Wind N.W. very cold in the morning, having freezed hard last night & a great hoar frost this morning, all the rest of the day was sun shine and very warm in the Sun: About 9 this night the Aurora Borealis as they are comonly called appeared but now they should rather be called Aurora Universalis because the whole Firmament was covered with beams of light that darted from the Horizon quite to the Zenith . so that it was as light as any full-Moon night."*


9th. (Mawrth 1743) ■ *"The Wind S. W. blowing high & very cold, freezed hard last night, & a great hoar frost this morning. The Aurora Borealis blazed last night very light from East to the North & so to West……"*




**Gellir gweld mai misoedd yr hydref a'r gaeaf oedd y misoedd pryd cofnododd William Bulkeley oleuni'r gogledd, ni cheir yr un cofnod ohonynt yn y dyddiaduron yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf.**

Ym mhapur Y Gwladgarwr ar y 8fed o Fedi 1876 cafwyd yr adroddiad yma ■ "YR HAUL A'R DDAEAR Ffaith hynod yn nglyn a'r cyrff hyn yw, pa bryd bynnag y bydd y ddaear yn cael ei chynhyrfu fwyaf fel magnet, y pryd hwnnw y ceir yr arddangosion mwyaf o'r goleuni gogleddol *(aurora borealis)*. Cafwyd allan hefyd mai po fwyaf nifer y brychau ar yr haul, y pryd hynny yr ymddengys y goleuni gogleddol fynychaf. Cymerodd un Mr Meldrum o Mauritius y drafferth o gasglu cyfrifiadau am bob llong a groesodd y Môr Indiaidd am ugain neu ddeng mlynedd ar ugain ac mewn canlyniad galluogwyd ef i ddweyd yn gywir am bob corwynt a gymerodd le ar y môr hwnnw yn ystod yr amser crybwlledig a chafodd allan mai pan oedd fwyaf o frychau ar yr haul dyna'r pryd yr oedd y corwyntoedd lluosocaf ar y Môr Indiaidd a dywed fod yr un ddeddf yn bodoli mewn cysylltiad a chorwyntoedd India Orllewinol. Felly yr ydym yn canfod fod y ddaear yn cael ei effeithio yn ei chwrs gan yr hyn a gymer le yn yr haul………

Y mae Mr Baxendell, sylwedydd o Manchester, wedi cael allan fod y gyfundrefn o lifiadau cyffredinol y ddaear yn ddibynnol ar yr amserau y byddo brychau yr haul y lluosocaf. Tybir hefyd fod perthynas agos ac wyneb yr haul ag ymddangosiad heintiau a chlefydau - un o'r heintiau llysieuol mwyaf adnabyddus yw haint y tatws. Y blynyddoedd gwaethaf pan fu yr haint hwn yn ei rwysg oeddynt 1846 a 1872. Yn awr y blynyddau yma ym mhell oddiwrth yr amser pan oedd fwyaf o frychau ar yr haul. Dywed Proffes W F Stewart y gellir gweled brychau ar yr haul weithiau trwy niwloedd Manchester a'r llygad noeth. Y mae eto un ffaith o ddyddordeb nodedig yn nglyn a'r afiechyd a gymerodd le tua thair canrif yn ôl sef y "clefyd chwyslyd"… Torodd y clefydd hwn allan tua diwedd y bymthegfed ganrif a dechrau yr unfed ganrif ar bymtheg. Cymerodd le yn y blynyddoedd a ganlyn 1435, 1506, 1517, 1528 a 1551 rhyw gyfnod o 11 mlynedd rhwng pob un o'r ymosodiadau. Yn awr dyma'r cyfnod yn union pan oedd brychau luosocaf ar yr haul. Wel, a allwn ni ddweyd beth oedd cyflwr yr haul yn ystod ymosodiadau y clefyd hwn? Ni gallwn gyda sicrwydd oblegyd nid oedd sylwedyddion o frychau yr haul yn y dyddiau hynny; ond fel y sylwyd pan y mae fwyaf o frychau ar yr haul dyna pryd y mae goleuni gogleddol yn ymddangos fwyaf a mynychaf. Pe byddai rhyw ymddangosiad mynych ac anarferol o'r goleuni gogleddol yn y dyddiau hynny byddent yn debyg o gael eu croniclo. Nid fel *aurora borealis* ond fel tanau yn y nef oeddynt yn cael eu gweld - fel byddinoedd ymladdgar."




## Tramps




**Math o bobl sy'n prysur ddarfod o'r tir yw'r crwydiaid, neu 'Y Tramps' fel ei hadwaenid hwy, sef y bobl unig ac anghymdeithasol rheiny a grwydrent yn ddibwrpas o le i le gan gardota eu tamaid o ddrws i ddrws.**

Tŷ fferm oedd Plas Isa, fy nghartref yn Nant-y-Betws, a chan fod y tŷ â'r adeiladau ar fin y ffordd fawr yn arwain o Gaernarfon i Benrhyndeudraeth, a bod 'Wyrcws' yn y ddau le hynny, dyma'r union le y byddai'r 'tramps' yn curo ar ei ddrws a chredaf y bu i ddwsinau ohonynt dros amser guro ar ein drws i ofyn am gardod a cheisio dŵr poeth a rhywbeth i'w fwyta neu efallai ambell ddilledyn, ac yn amlach na pheidio cael caniatad i gysgu yn un o'r adeiladau allanol. Cychwyn o'r 'Wyrcws' yng Nghaernarfon yn y bore oedd y drefn i'r rhan fwyaf ohonynt gan wneud eu ffordd i gyfeiriad 'Wyrcws' y Penrhyn, a gwnant hynny wrth eu pwysau gan nad oedd dim yn disgwyl wrthynt.

Cofiaf y trempyn cyntaf ddaeth at ein drws a hynny wedi i ni symud o Fryn Afon, ein hen gartref cyntaf yn y plwyf lle na alwai ond ambell grwydryn o dro i dro. Roedd hwn i ni yn blant bach ar y pryd yn rhyfeddod, ond yn fath o beth y daethom i gynefino ac ef yn aml iawn. Dyn bychan oedd hwn a golwg bygddu iawn arno. Prin y gallem weld ei wyneb gan fod cantel yr hen het fawr a wisgai yn hongian yn llipa dros y rhan uchaf o'i wyneb â'i locsyn blêr yn cuddio y rhan isaf. Wedi iddo gael te a brechdan aeth ymaith a ninnau'r plant yn ei wylio mewn cywreinrwydd ac yna gweld fod ganddo bartneres, hen 'drampen' flêr yr olwg yn ei ddisgwyl wrth fon y clawdd. Eisteddodd y ddau ar fin y ffordd i fwyta'r bwyd a chymryd llymaid o de o'r piser bach bob yn ail. Yna tynnodd y trempyn hen getyn du o'i boced a'i danio, a dyna lle roedd y ddau yn tynnu bob yn ail yn y cetyn a ninnau erioed wedi gweld dynes yn smocio o'r blaen.

Daethom i adnabod rhai ohonynt wrth eu henwau, rhai fel 'Huw rhen greadur.' Nid oedd gan yr hen drempyn yma draed, a byddai'n symud yn araf-araf ar goesau byr.

'Tramp Sacha,' oedd ein henw ar un arall ohonynt gan byddai bob amser wedi lapio ei hun mewn sachau. Sach am bob coes ac un arall fel sgert o amgylch ei lwynau a hen sach budr fel siôl dros ei war, un arall wedyn wedi ei agor allan â'i gongl yn bîg ar ei ben. Arferai'r 'Tramp Sacha' sefyll wrth y clawdd neu bostyn giat i grafu ei gefn bob yn ail a pheidio, cymaint oedd y cosi arno, a byddai'n mwmian rhywbeth yn ffyrnig nes codi ofn arnom. Ni welais erioed hwn yn galw yn ein tŷ ni. A yn ei flaen i fferm arall ymhellach i fyny'r dyffryn a byddai'n aros yno am ddeuddydd neu dri i hel cerrig o'r caeau, ond pan ddeuai'r ysfa grwydrol drosto, fe aethai ymaith heb ddweud dim gan adael y bwced gerrig ar y cae.

Hen drempyn arall oedd 'John Parry.' Wn'i ddim sut cafodd o yr enw parchus, ond roedd gwell graen arno na'r lleill ac hefyd yn eithriad am ei fod yn Gymro ac yn siarad Cymraeg. Er pa genedl roedd y crwydriaid yn perthyn iddi, Saesneg oedd iaith y rhan fwyaf ohonynt.

Un arall a gofiaf oedd hen gymeriad o'r enw 'Thomas Murphy.' Roedd hwn yn debycach i Sipsi gan fod ganddo geffyl bychan gwyn yn tynnu math o drol fechan, yn yr hon roedd llu o bethau fel, tegellau, sosbenni, lampau, crochanau a sawl peth arall.

Gan byddai cymaint ohonynt yn galw heibio, roedd wedi mynd yn arferiad i osod y tecell haearn mawr oedd gennym yn y gegin ar far o haearn o bentan i bentan a'i gadw yn berwi, ac ambell ddiwrnod byddai gennym sosban fawr hirgron yn berwi tatws mân i'r ieir, a phan ddeuai'r “Gwyddel Mawr,” dyn mawr cyhyrog a roddai ei wyneb yn ddigwilydd ar wydr y drws nes byddai ei drwyn yn fflat, fe gai lond ei boced o'r tatws a llond ei biser bach (hen dun tolciog du anghynnes â weiren fel handlen iddo) o laeth enwyn a dyna ei blesio fyddai hynny. Byddai hwn bob amser yn gofyn am *“a pinch of salt for the old woman!”* Pwy oedd yr *'Old woman?'* ni chawsom erioed wybod gan nad oedd math o synnwyr i'w gael ganddo, dim ond rwdlian, ac mae'n siwr mai dychymyg oedd yr holl beth!

Nid oedd synnwyr na sgwrs o lun yn y byd i'w gael gan y 'tramps' fel rheol, ac eithrio un ddaeth i'r drws un tro a chryn olwg arno. Roedd gan hwn lais ac arddull fonheddig a byddai'n eistedd allan yng nghefn y tŷ yn bwyta'r bwyd a gafodd. Dechreuodd siarad am yr adar oedd yn hedfan o gwmpas, a'r argraff a gawsom ohonno ei fod wedi gweld dyddiau llawer gwell ac yn debyg fel pe bai wedi cael addysg dda rhywdro.

Roedd gennym ast ddefaid, Nel, a gallai hon arogli tramp cyn iddo ddod yn agos at y tŷ. Cedwid Nel wrth gadwyn yng nghefn y tŷ a gellid ei chlywed yn dechrau chwyrnu ac yn codi ei gwrychyn a chyfarth yn ffyrnig pan ddeuai tramp i'r golwg. Roedd Nel yn *'watchdog'* ardderchog ac ni feiddiai yr un trempyn fentro heibio ei chasgen. Roedd fel pe byddai'n gallu gwybod y gwahaniaeth rhyngddynt a phobl eraill. Fe fyddai ymddygiad Nel yn ddigon o rybudd i mam gan bod arni braidd ofn tramp pan fyddai yn y tŷ ei hunan ac iddi gadw o'r golwg. Gwell fyddai ganddi ei weld yn dod i ddrws y ffrynt i gardota nac i'r cefn gan fod amryw ohonynt yn haerllug a hyf iawn, ac ni fynnai wneud fawr â hwy gan nad oedd yn eu trystio. Fy nhad, os byddai o gwmpas, fyddai'n delio â nhw. Nid oedd mam yn siarad Saesneg a chan mai dyna oedd iaith y rhelyw o'r crwydriaid, cai ymwared â hwy yn bur ddoniol drwy ddweud yn Gymraeg, “Dwni'm be’ yn y byd wyt ti yn ddeud wir!” a ninnau'r plant yn cael achos i chwerthin sawl gwaith.

**Arwyddion trampiaid**




Pechod mawr yn ein cartref oedd i neb ohonom wastraffu bwyd a chawsom ein dysgu i werthfawrogi pob tamaid. Er fod arian yn eithriadol o brin, caem ddigon o fwyd cartref plaen fodd bynnag. Felly y math o dramps na chant groeso o gwbl gan fy rhieni oedd y rhai hynny fyddai ganddynt focs neu flwch â mân bethau i'w gwerthu er mwyn cael arian ac yn troi eu trwynau pan gynigwyd bwyd iddynt. Edrychid ar hyn fel sgìl i gael pres a doedd peth felly ddim yn gweddu yn eu golwg nhw. Roedd yn iawn iddynt gael bwyd, ond dim pres! Roedd angen pob ceiniog gartre heb fynd i'w gwastraffu ar 'nialwch. 'Yn wir ai fy nhad mor eithafol a galw rhai o'r fath yn 'Sgiamps.'

Un o'r dosbarth hwnnw oedd un ddaeth at ddrws y cefn yn ceisio perswadio fy mam i brynu pinnau, nodwyddau a botymau a hithau yn ôl ei harfer yn ei ateb yn Gymraeg gan gymryd arni na ddeallai mohono. Collodd y tramp ei limpyn a gwaeddodd arni yn sgornllyd, *“BLOODY MONKEY!”* a rhoi clep ar gaead y bocs. Clywodd fy nhad yr hyn oedd yn mynd ymlaen ac aeth ato a'i rybuddio i beidio dod ar gyfyl y tŷ fyth wedyn cyn dangos y lôn iddo mewn ffordd bur bendant.

Daeth tramp i'r drws un bore glawog yn wlyb ddiferol, a gofyn, nid am fwyd, ond am fenthyg nodwydd ac edau i bwytho ei drowsus oedd wedi rhwygo lawr yr ochr. Wedi derbyn beth roedd angen, aeth fy mrodyr ac ef i'r stabl a rhoi mainc gneifio iddo ac yno y bu wrthi am oriau yn gwneud ei waith teiliwr.

***Parhad y mis nesaf (GLAS Rhifyn 182)***

***Os ydych am ddarllen y stori mewn un darn ewch i'r ddolen hon.***

## Cymro o dramp




**Dyma gofnod ganddo yn y Tywyddiadur - Gwefan Llên Natur.**

Ffynhonnell: The Diary of a Welsh Swagman (Joseph Jenkins)

[Tua Tachwedd 1868]..*I had part of the Christmas goose in the tropics when crossing the "Line". The voyage had been a most pleasant passage, except for its start when we were knocked about in the Irish sea by a gale for nine days. The ship had failed to return to Liverpool, nor could it reach Queenstown in Ireland. The captain then tried to enter Milford Have in Wales, but the south-westerly wind was too strong for the tired ship. Eventually we got underway, and arrived in Melbourne on the 22nd March 1869.*

# Cwis: coed y gaeaf

Llén natur




1 Ffawydden
2 Derwen mes coesynnog
3 Castanwydden y meirch
4 Collen
5 Bedwen arian
6 Masarnen
7 Draenen wen
8 Gwernen
9 Onnen
10 Helygen wen
11 Criafolen
12 Pisgwydden dail bach

*Parwch y rhifau a'r llythrennau*

*- Atebion ar y ddolen*